# CYFARFOD PENDERFYNIADAU AELOD Y BWRDD GWEITHREDO DROS DIWYLLIANT, CHWARAEON A THWRISTIAETH

## DYDD LLUN, 17 GORFFENNAF 2017

**YN BRESENNOL: Y Cynghorydd:** P. Hughes-Griffiths (Aelod o'r Bwrdd Gweithredol).

**Roedd y swyddogion canlynol yn bresennol:**
D. Hockenhull, Rheolwr y y Cyfryngau a Marchnata
M.S. Davies, Swyddog Gwasanaethau Democrataidd

**Ystafell 66, Neuadd y Sir, Caerfyrddin – 10.00am-10.30 am**

**1. DATGAN BUDDIANNAU PERSONOL**

Ni ddatganwyd unrhyw fuddiannau personol.

**2. COFNOD PENDERFYNIADAU - 22 MEHEFIN 2017**

**PENDERFYNWYD llofnodi bod Cofnod Penderfyniadau'r cyfarfod oedd wedi'i gynnal ar 22 Mehefin 2017 yn gofnod cywir.**

**3. CEISIADAU I'R GRONFA CYMORTH DIGWYDDIADAU**

Bu'r Aelod o'r Bwrdd Gweithredol yn ystyried ceisiadau am gymorth gan y Gronfa Cymorth Digwyddiadau a gafodd eu hasesu ar sail eu cyfraniad at amcanion strategol y Cyngor o ran Twristiaeth, Cymunedau a'r Economi. Rhoddodd y Rheolwr Marchnata a'r Cyfryngau ragor o wybodaeth am bob digwyddiad.

**PENDERFYNWYD**

**3.1 cymeradwyo'r ceisiadau canlynol am gymorth o'r Gronfa Cymorth Digwyddiadau yn amodol ar y telerau a'r amodau arferol a bennwyd ym meini prawf y gronfa:-**

| Digwyddiad | Dyfarniad |
|---|---|
| Chwedlau Caerfyrddin | £500.00 |
| Gŵyl y Synhwyrau Llandeilo 2017 | £1,500.00 |
| Big Cwtch 2017 | £2,500.00 |

**3.2 peidio â chymeradwyo'r cais mewn perthynas â Gar Gŵyl 2017 y tro hwn.**

____________________________ __________________

**AELOD O'R BWRDD GWEITHREDOL** **DYDDIAD**